

Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg: Canllawiau ar Gydweithredu Amlasiantaethol

Teitl: Canllawiau Cydweithredu Effeithiol rhwng Asiantaethau - Canllawiau Statudol a wnaed o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.	Cyfeirnod Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg:				
Enw'r person sy'n llenwi'r ffurflen:	Henry Vaile				
Dyddiad:	10/6/15				
Arweinydd polisi:	Henry Vaile				
Manylion cyswllt:	Henry.Vaile@wales.gsi.gov.uk				
Math o raglen/prosiect ☐ Polisi ☐ Deddfwriaeth ☐ Grant ☐ Newid busnes ☐ Seilwaith ☐ Adeiladu, Cyfalaf ☐ TGCh ☒ Arall (rhowch fanylion isod) ☐ Prosiect neu raglen ☐ Ymchwil, gwerthuso ☐ Gwasanaethau ☐ Contractau, tendrau Canllawiau Statudol o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.					
Costau: Faint yw'r gost ragamcanol ar gyfer oes gyfan y rhaglen/prosiect?					
Llai na £25 k	£25 k - £49 k	£50 k - £249 k	£250 k	Dros £1 miliwn	
☒	☐	☐	☐	☐	
O'r uchod, rhowch fanylion unrhyw gostau a nodwyd sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r Gymraeg. Costau cyfieithu'r canllawiau a'u cyhoeddi.					
Am ba hyd y mae disgwyl i'r rhaglen/prosiect redeg?					
Hyd at 1 mlynedd	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Mwy na 10 mlynedd	Ddim yn hysbys
☐	☐	☐	☐	☐	☒
Dyddiadau allweddol ar gyfer cerrig milltir y rhaglen/ prosiect:					
- Ymgynghori cyhoeddus ar y canllawiau statudol - Medi 2015 i Ragfyr 2015 - Gosod gerbron y Cynulliad – Chwefror 2016					

CAM 1: CYNLLUNIO

Beth yw nodau ac amcanion y polisi?

Beth yw'r canlyniadau dymunol/ beth fydd yn dynodi 'llwyddiant'?

Mae Adran 15 o'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol i gynorthwyo'r sector cyhoeddus yng Nghymru i sefydlu trefniadau ar gyfer atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac i amddiffyn a chefnogi'r sawl sy'n dioddef ac yn goroesi camdriniaeth o'r fath.

Cafodd y canllawiau *Cydweithredu Effeithiol rhwng Asiantaethau* eu cynhyrchu i helpu'r awdurdodau perthnasol (Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Tân ac Achub) i ymgymryd â'u dyletswyddau o dan y Ddeddf. Cynlluniwyd y canllawiau i dynnu sylw at bwysigrwydd cydweithredu i fynd i'r afael â'r materion hyn ac maent hefyd yn tynnu sylw at yr elfennau allweddol ar gyfer gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth.

Pa opsiynau polisi sydd wedi cael eu hystyried?

a

Beth fydd yr effeithiau os *na chaiff* y polisi ei weithredu?

O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i'r awdurdodau perthnasol (Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Tân ac Achub) ymateb yn effeithiol ac amserol i ddioddefwyr a goroeswyr camdriniaeth o'r fath. Mae mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn fater cymhleth sy'n galw am ymateb gan amrywiaeth o sefydliadau'r sector cyhoeddus, heb i unrhyw sefydliad unigol gymryd cyfrifoldeb arweiniol.

Yn ôl y dystiolaeth, mae cydweithredu rhwng amryw o asiantaethau yn arwain at fwy o ymyriadau a chymorth gwell ac, o ganlyniad, ceir llai o achosion o gamdriniaeth ac mae'r achosion yn rhai llai difrifol. Mae ymchwil a gynhaliwyd yn dangos bod modeli amlasiantaethol wedi amddiffyn dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn well, a'u bod wedi cynnig safonau gwell o ymarfer proffesiynol. Mae'r canllawiau hyn wedi'u cynllunio fel ffynhonnell cyngor ac arferion da ar gyfer cydweithredu a ffurfio trefniadau amlasiantaethol i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru. I'r perwyl hwn, mae'r canllawiau yn canolbwyntio ar egwyddorion cydweithredu amlasiantaethol a'r prosesau y dylid eu dilyn i helpu i hwyluso'r dull hwn o weithio wrth geisio mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Oes yna gysylltiad clir rhwng y rhaglen â laith fyw: laith byw, strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg?

Nid oes unrhyw gysylltiadau sylweddol rhwng y Canllawiau Statudol hyn a strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.

Beth yw'r effeithiau (boed yn gadarnhaol a/neu'n andwyol) ar y Gymraeg a nodwyd gennych ar y cam cynllunio cychwynnol?

Ni chafodd unrhyw effeithiau sylweddol ar y Gymraeg eu nodi wrth baratoi a drafftio'r ddogfen ganllaw. Mae'n bosibl y gallai'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle gael ei

hyrwyddo os bydd sefydliadau yn dewis cymhwyso'r canllawiau hyn.

Er bod y canllawiau hyn yn canolbwyntio ar ofynion gweithio amlasiantaethol, y manylion ymarferol ac enghreifftiau o arferion gorau wrth i amrywiol asiantaethau gydweithio i ddarparu gwasanaethau, darperir canllawiau statudol ar wahân ar ddatblygu'r strategaethau lleol sy'n ofynnol o dan y Ddeddf.

Bydd y canllawiau hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod cymorth i ddioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar gael yn y Gymraeg i'r rheini sydd angen cefnogaeth o'r fath. Bydd hyn yn cynnwys yr angen i gofnodi dewis iaith (heb fod rhaid i'r dioddefwr ofyn), a rhannu data o'r fath a gweithredu arnynt fel rhan o'r llwybrau gofal a'r gweithdrefnau rhannu gwybodaeth gofynnol.

Mae'r ddogfen ymgynghori ddrafft yn cynnwys y cwestiwn: Pa gyfleoedd sydd ar gael i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn perthynas â'r canllawiau hyn? A oes gennych bryderon y gallai unrhyw ran o'r canllawiau gael effaith andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Pwy yw'r rhanddeiliaid? A ydy anghenion siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn cael eu diwallu? I ba raddau y mae grwpiau sydd â buddiant yn y Gymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?

Mae'r canllawiau hyn wedi'u targedu'n bennaf at y rheini sy'n gweithio i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn yr awdurdodau perthnasol (Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Tân ac Achub). Gellir defnyddio'r canllawiau hyn hefyd fel canllaw arferion gorau i'r rheini sy'n gweithio yn y trydydd sector arbenigol yng Nghymru. Gallai'r rhanddeiliaid gynnwys y 284,000 o weithwyr sy'n gweithio yn y rhannau perthnasol o wasanaeth cyhoeddus Cymru a'r rheini sy'n darparu gwasanaethau arbenigol ar draws y trydydd sector. Mae'r 29% o weithlu'r gwasanaeth cyhoeddus a'r 31% o'r gweithlu gwirfoddol sy'n siarad Cymraeg yn ôl yr Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth (ONS) yn arbennig o berthnasol i'w asesiad hwn.

Ymhen amser, bydd yr awdurdodau perthnasol yn dod yn agored i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Pan fo gweithwyr sy'n gweithio i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn dod i gysylltiad â chydweithwyr, defnyddwyr gwasanaeth neu gynrychiolwyr o sefydliadau eraill sy'n siarad Cymraeg, bydd rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau perthnasol sy'n gymwys i'w hawdurdod penodol.

Os nad oes asesiad wedi'i gwblhau, neu os nad oes unrhyw effaith wedi'i nodi, rhwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnodion.

Amherthnasol

Pa gamau/waith pellach sydd wedi'u nodi ar y cam cynllunio cychwynnol?

Tynnwyd ein sylw at Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yr Iaith Gymraeg a fydd yn cynnwys dyletswydd ar sefydliadau sy'n destun y Safonau i hyrwyddo unrhyw wasanaethau Cymraeg y maent yn eu darparu.

CAM 2: NODI AC ASESU EFFEITHIAU			
<u>Crynodeb o'r Asesiad Effaith</u> Rhowch grynodeb o'r asesiad effaith manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgorau a roddwyd.			
Effeithiau cadarnhaol: Rydym o'r farn mai ychydig o effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg a ddaw yn sgil cymhwyso'r Canllawiau ar Gydweithredu Effeithiol rhwng Asiantaethau gan yr awdurdodau perthnasol yng Nghymru.			
Effeithiau andwyol: Nid ydym o'r farn fod gan y Canllawiau ar Gydweithredu Effeithiol rhwng Asiantaethau unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar y Gymraeg.			
Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg ee statws, defnydd o wasanaethau Cymraeg, defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd, a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith wedi cynyddu? Do.			
Tystiolaeth/ data wedi'u defnyddio, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau: Yn ôl cyfrifiad 2011, mae 562,016 (19%) o ddinasyddion Cymru yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r nifer a'r ganran o siaradwyr Cymraeg yn y Sector Cyhoeddus yn uwch na chyfartaledd y boblogaeth. Gwelir yr ystadegau a ddefnyddiwyd i lunio'r asesiad hwn isod. % y personau mewn cyflogaeth 16 oed a hŷn sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl sector, blwyddyn hyd 30 Medi 2014			
	Ydw, yn gallu siarad Cymraeg	Nac ydw, ddim yn gallu siarad Cymraeg	Pob person
Preifat	22	78	100
Cyhoeddus	29	70	100
Gwirfoddol	31	69	100
Ddim ar gael	25	75	100
Pob sector	25	75	100.0
<i>Ffynhonnell: Yr Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth, ONS</i>			
Yn ôl yr asesiad effaith/ asesiad risg, pa effaith debygol gyffredinol y rhagwelir y byddai'r polisi hwn, pe bai'n cael ei ddatblygu, yn ei chael ar y Gymraeg?	Cadarnhaol: ☐ Andwyol: ☐ Niwtral: ☒ Ddim yn hysbys: ☐		

Penderfyniad yn dilyn Asesiad Effaith	1. Dim newid mawr	☒
	2. Addasu'r polisi i wella'r effeithiau	☐
	3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru	☐
	4. Rhoi'r gorau iddi a dileu'r polisi	☐
Os atebwyd 2,3 neu 4 uchod – yna dylid ateb y cwestiwn canlynol: Sut byddwch chi'n mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau ar gyfer y Gymraeg? Manylion mesurau lliniaru/ camau gweithredu/ opsiynau eraill i leihau effeithiau andwyol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol: Amherthnasol		
Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych chi am ofyn i randdeiliaid ynghylch Asesu'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg a materion yn gysylltiedig â'r Gymraeg?		
Bydd ymgynghoriad ffurfiol ar y canllawiau drafft yn cael ei gynnal â rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd yng Nghymru am gyfnod o 12 wythnos. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried wedi hynny a chaiff y Canllawiau Statudol eu gosod gerbron y Cynulliad cyn cael eu cyhoeddi. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys y cwestiwn canlynol: Pa gyfleoedd sydd ar gael i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn perthynas â'r canllawiau hyn? A oes gennych bryderon y gallai unrhyw ran o'r canllawiau gael effaith andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Bydd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cael eu hystyried yn llawn a chaiff y canllawiau eu diwygio yn ôl yr angen.		

4. Datganiad

Arweinydd polisi: *Dileer yn ôl y gofyn: *Mae'r / Nid yw'r polisi yn cael effaith ar y Gymraeg. Lle nodwyd bod yna effeithiau andwyol neu gyfleoedd a gollwyd, diwygiwyd fel y bo'n briodol a rhoddwyd y camau gweithredu priodol ar waith.
Henry Vaile
Adran: Tîm Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig, yr Is-adran Diogelwch Cymunedol
Dyddiad(au): 11/06/15
Henry Vaile
Dyddiadau Adolygu Arfaethedig: Ebrill 2016

CYMERADWYO ac ADOLYGU GAN Y PRIF BERCENNOC CYFRIFOL

Rwy'n fodlon bod yr Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect ar y cam datblygu hwn. Drwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw dyledus. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar gamau allweddol gydol oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygu polisi.

Llofnodwyd: Lynne Schofield
(Prif Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad 23 Mehefin 2015

Llofnodwyd
(Prif Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad Adolygu

Llofnodwyd
(Prif Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad Adolygu

Llofnodwyd
(Prif Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad Adolygu